

RHIF YR YMCHWIL GYMDEITHASOL: 23/2020
DYDDIAD CYHOEDDI: 26/03/2020

Pa ffactorau sy'n gysylltiedig â phobl yn teimlo'n ddiogel yn eu hardal leol?

Dangosydd Cenedlaethau'r Dyfodol 25

Mae'r adroddiad hwn yn amlinellu rhai ffactorau sy'n gysylltiedig ag oedolion yn teimlo'n ddiogel mewn gwahanol sefyllfaoedd yn eu hardal leol, ar sail canlyniadau [Arolwg Cenedlaethol Cymru](#). Mae'r Arolwg Cenedlaethol yn gofyn i bobl am eu profiad o ddiogelwch ar sail pedwar ffactor unigol: teimlo'n ddiogel gartref, wrth gerdded, wrth deithio mewn car, ac wrth deithio ar drafnidiaeth gyhoeddus.

Mae'r adroddiad hwn yn seiliedig ar gyfweiliadau'r Arolwg Cenedlaethol a gynhaliwyd yn **2018-19**. Mae'n diweddarar'r [dadansoddiad blaenorol a oedd yn seiliedig ar ganlyniadau 2013-14](#).

Prif ganfyddiadau

Gan gadw'r ffactorau eraill yn gyson¹, dyma'r rhagfynegyddion cryfaf o ran pobl yn **teimlo'n ddiogel yn eu hardal leol**.

- **Dynion**, o'u cymharu â menywod.
- **O dan 75**.
- Ddim mewn **amddifadedd materol** (mesur o dlodi ac effaith hynny).
- **Ymdeimlad o berthyn** i'r ardal leol.
- Teimlo bod pobl o wahanol gefndiroedd yn **cyd-dynnu'n dda** yn yr ardal leol.
- Teimlo'n **anfodlon ar lefel y traffig a llygredd sŵn** yn yr ardal leol.

Roeddem wedi canfod naw ffactor yn ein dadansoddiad **nad** oeddent yn gysylltiedig â phobl yn teimlo'n ddiogel yn eu hardal leol, gan gynnwys: cyflwr hirdymor cyfyngol, statws priodasol; llesiant meddyliol; a bodlonrwydd ar yr ardal leol fel lle i fyw. Fel sy'n wir am bob dadansoddiad fel hyn, nid ydym yn gallu priodoli achos ac effaith na chaniatáu ar gyfer ffactorau nad ydynt wedi cael eu mesur yn yr arolwg.

¹ Rydym wedi rheoli ystod o ffactorau yn y gwaith dadansoddi hwn. Felly, hyd yn oed pan fo cysylltiad rhwng ffactorau (ee iechyd cyffredinol ac oedran), gellir archwilio'r cysylltiad rhwng pob ffactor a chanran y bobl sy'n teimlo'n ddiogel yn eu hardal leol yn annibynnol.


1. Y Cefndir	3
2. Y cwestiynau yn yr Arolwg Cenedlaethol	3
3. Dull dadansoddi	4
4. Y prif ffactorau sy'n gysylltiedig â phobl yn teimlo'n ddiogel yn eu hardal leol	5
4.1 Dadansoddi	7
4.1.1 Ffactorau demograffig	7
<i>Rhyw</i>	7
<i>Oedran</i>	7
4.1.2 Ffactorau economaidd-gymdeithasol	8
<i>Amddifadedd materol</i>	8
4.1.3 Cydlyniant cymunedol	8
<i>Ymdeimlad o berthyn i ardal leol</i>	8
<i>Pobl o gefndiroedd gwahanol yn cyd-dynnu'n dda</i>	8
4.1.4 Nodweddion yr ardal leol	9
<i>Barn am lefel y traffig a llygredd sŵn yn yr ardal leol</i>	9
<i>Teimlo'n ddiogel wrth gerdded ar eu pen eu hunain mewn mannau gwyrdd lleol</i>	9
4.2 Ffactorau nad ydynt yn gysylltiedig â phobl yn teimlo'n ddiogel yn eu hardal leol	9
5. Dadansoddi cwestiynau unigol	9
5.1 Teimlo'n anniogel wrth gerdded ar eu pen eu hunain yn yr ardal leol	10
5.2 Teimlo'n anniogel wrth deithio mewn car ar ôl iddi dywyllu	10
5.3 Teimlo'n anniogel gartref ar ôl iddi dywyllu	11
5.4 Teimlo'n anniogel wrth deithio ar drafnidiaeth gyhoeddus ar ôl iddi dywyllu	11
6. Crynodeb ac argymhellion ar gyfer rhagor o ymchwil	12
Atodiad A – Y prif ffactorau sy'n gysylltiedig â phobl yn teimlo'n anniogel wrth <i>gerdded ar eu pen eu hunain yn yr ardal leol ar ôl iddi dywyllu</i>	14
Atodiad B – Y prif ffactorau sy'n gysylltiedig â phobl yn teimlo'n anniogel wrth <i>deithio mewn car yn yr ardal leol</i>	15
Atodiad C – Y prif ffactorau sy'n gysylltiedig â phobl yn teimlo'n anniogel <i>gartref ar ôl iddi dywyllu</i>	16
Atodiad D – Y prif ffactorau sy'n gysylltiedig â phobl yn teimlo'n anniogel <i>wrth deithio ar drafnidiaeth gyhoeddus</i>	17

1. Y Cefndir

Mae [Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol \(Cymru\) 2015](#) yn canolbwyntio ar wella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Er mwyn cyflawni hyn, mae'r Ddeddf yn ei gwneud hi'n ofynnol i gyrff cyhoeddus yng Nghymru feddwl am dargedau a materion hirdymor, gweithio'n well gyda chymunedau a rhanddeiliaid, a dilyn dull mwy cydlynol a chydgyssylltiedig o wneud penderfyniadau. Er mwyn sicrhau bod y weledigaeth hon yn cael ei chyflawni, mae'r Ddeddf yn cyflwyno saith o nodau llesiant² (**Ffigur 1**).

Mae'r Ddeddf yn ei gwneud hi'n ofynnol i Lywodraeth Cymru bennu [dangosyddion cenedlaethol](#) sy'n mesur sut mae'r nodau llesiant yn cael eu cyflawni. Mae [Arolwg Cenedlaethol Cymru](#) yn mesur cynnydd yn erbyn 15 o'r 45 o ddangosyddion cenedlaethol. Mae'r arolwg yn cynnwys cyfweiliadau wyneb yn wyneb â 12,000 o bobl o bob cwr o Gymru bob blwyddyn.

Mae'r adroddiad hwn yn canolbwyntio ar [Ddangosydd Cenedlaethol 25](#): 'Canran y bobl sy'n teimlo'n ddiogel gartref, wrth gerdded yn yr ardal leol ac wrth deithio'.



Ffigur 1. Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015: saith nod llesiant³.

2. Y cwestiynau yn yr Arolwg Cenedlaethol

Casglwyd gwybodaeth a oedd yn berthnasol i Ddangosydd Cenedlaethol 25 drwy ofyn i'r rhai a oedd yn ateb yr Arolwg Cenedlaethol pa mor ddiogel roeddent yn teimlo: **gartref** ar ôl iddi dywyllu; **wrth gerdded ar eu pen eu hunain** yn eu hardal leol ar ôl iddi dywyllu; **wrth deithio mewn car** ar ôl iddi dywyllu; ac **wrth deithio ar drafnidiaeth gyhoeddus** ar ôl iddi dywyllu.

Defnyddiwyd graddfa pedwar pwynt i ateb pob un o'r agweddau hyn ar ddiogelwch cymunedol, a oedd yn amrywio o '1 = diogel iawn' to '4 = anniogel iawn'. Ar gyfer y dadansoddiad yn yr adroddiad hwn, mae diogel 'iawn' neu 'eithaf' diogel wedi'u cyfuno yn un mesur o 'deimlo'n ddiogel'.³

Mae dangosydd cenedlaethol 25 yn mesur cyfran y bobl sy'n cytuno eu bod yn 'teimlo'n ddiogel' ym mhob un o'r pedwar o'r datganiadau hyn, a dyma sy'n cael ei drafod yn yr adroddiad hwn. Fodd bynnag, rydym wedi canfod bod cyfran sylweddol o bobl wedi ateb 'Ddim yn gwybod' i'r cwestiynau am deithio ar drafnidiaeth gyhoeddus gyda'r nos (efallai oherwydd nad ydynt yn defnyddio trafndiaeth gyhoeddus gyda'r nos, er enghraifft). Oherwydd hyn, byddwn yn comisiynu rhagor o ymchwil i benderfynu ar y fethodoleg orau i gyfrifo'r mesur diogelwch yn gyffredinol. Byddwn yn trafod unrhyw newid mewn methodoleg mewn adroddiadau yn y dyfodol, yn ogystal ag unrhyw newid mewn canlyniadau neu newid dros amser.

Roedd cyfanswm o 71% o bobl yn teimlo'n ddiogel (gartref, wrth gerdded yn yr ardal leol ac wrth

² Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015: Yr hanfodion, sydd ar gael [ar-lein](#).

³ Roedd ymatebwr a oedd wedi ateb 'anniogel iawn' ac 'ychydig yn anniogel' i'r cwestiynau diogelwch cymunedol hefyd wedi cael eu cyfuno yn un grŵp 'teimlo'n anniogel'.

deithio).

3. Dull dadansoddi


Er mwyn cael dealltwriaeth glir o sut mae pob ffactor unigol yn cyfrannu at a yw pobl yn teimlo'n ddiogel, rydym wedi defnyddio **techneq ystadegol⁴ i edrych ar y cysylltiad⁵ rhwng ffactorau penodol a phobl yn teimlo'n ddiogel yn eu hardal leol, gan gadw pob ffactor arall yn gyson**. Mae cadw pob ffactor arall yn gyson (gelwir hyn yn rheoli ffactorau eraill hefyd) yn bwysig oherwydd mae'n caniatáu i ni edrych ar bob ffactor rhagfynegi yn annibynnol (hynny yw, sicrhau nad oes ffactorau allanol yn dylanwadu ar yr effaith rydym yn ei mesur). Er enghraifft, gallem archwilio'r cysylltiad rhwng dau ffactor ar wahân (oedran ac amddifadedd materol) a phobl yn teimlo'n ddiogel yn eu hardal leol. Efallai ein bod yn gwybod bod oedran (ee bod o dan 75 oed) yn gysylltiedig â phobl yn teimlo'n ddiogel yn eu hardal leol; fodd bynnag, mae cysylltiad hefyd rhwng oedran ac amddifadedd materol (gweler **Ffigur 2**). Mae hyn yn gallu ei gwneud hi'n anodd dweud a oes cysylltiad rhwng teimlo'n ddiogel ac oedran neu amddifadedd materol. Er mwyn edrych ar effaith un ffactor (ee oedran) ar bobl yn teimlo'n ddiogel yn eu hardal leol, byddai arnom angen rheoli effaith pob ffactor arall. Mae modd i ni gael syniad llawer gwell o sut mae un ffactor unigol yn gysylltiedig â phobl yn teimlo'n ddiogel yn eu hardal leol, heb ddylanwad ffactorau eraill.

Cymhlethdod y perthnasoedd rhwng ffactorau

Er mwyn deall y canlyniadau hyn, ni allwn bob amser fod yn sicr ynghylch pa ffactorau sydd â *chysylltiad* â phobl yn teimlo'n ddiogel yn eu hardal leol a pha ffactorau y mae pobl sy'n teimlo'n ddiogel yn eu hardal leol yn *effeithio arnynt*. Mae'r berthynas hon yn amlwg yn seiliedig ar wybodaeth flaenorol ar gyfer rhai ffactorau. Er enghraifft, mae'n bosibl y gall bod o dan 75 oed fod yn gysylltiedig â phobl yn teimlo'n ddiogel; fodd bynnag, rydym yn gwybod nad yw teimlo'n ddiogel yn gysylltiedig â newid mewn oedran. Nid yw'r berthynas mor amlwg ar gyfer ffactorau eraill.⁶

Dehongli'r canlyniadau

Mae'r holl ffactorau a gyflwynir yn y siartiau yn yr adroddiad hwn yn rhagfynegyddion ystadegol arwyddocaol o bobl yn teimlo'n ddiogel yn eu hardal leol, fel sydd wedi'u profi gan y model atchweliad rydym wedi'i ddewis. Yn yr adroddiad hwn, rydym yn defnyddio 'ymylon rhagfynegi' – sy'n cael eu cyflwyno fel canrannau (%) – i ddangos y tebygolrwydd o berthynas rhwng pob ffactor (gan gadw pob ffactor arall yn



Ffigur 2 Pwysigrwydd cadw pob ffactor arall yn gyson wrth ddadansoddi

⁴ Atchweliad logistaidd yw'r enw ar hyn. Mae rhagor o wybodaeth am y dulliau a ddefnyddiwyd yn yr adroddiad hwn ar gael yn yr [adroddiad methodoleg atchweliad a'r adroddiad technegol](#).

⁵ Mae'r dadansoddiad hwn yn gallu dweud wrthym am *debygoliaeth* perthnasoedd rhwng ffactorau, ond ni all ddweud wrthym am berthnasoedd anffurfiol (ee byddai'n anghywir dweud bod peidio â bod mewn amddifadedd materol yn achosi i bobl deimlo'n ddiogel yn eu hardal leol).


⁶ Gall y berthynas hon fod yn hyd yn oed mwy cymhleth, oherwydd gallai fod ffactorau eraill nad ydym wedi'u hystyried eto (ac nad ydynt ar gael gan yr Arolwg Cenedlaethol) a allai fod yn gysylltiedig â theimlo'n ddiogel a pheidio â bod mewn amddifadedd materol.

gyson) â'r newidyn dibynnol (pobl yn teimlo'n ddiogel yn eu hardal leol). Mae'r canlyniadau yn dangos pa mor debygol yw un grŵp 'cyffredin' o bobl â nodwedd a rennir (ee menywod) o deimlo'n ddiogel yn eu hardal leol, o'i gymharu â grŵp 'cyffredin' arall o bobl â nodwedd wahanol a rennir (ee dynion) mewn un ffactor penodol (ee rhyw). Mae bariau ansicrwydd ar y siartiau yn dangos y cyfwng hyder o 95% ar gyfer yr ymylon rhagfynegi i bob grŵp. Mae bariau ansicrwydd sy'n gorgyffwrdd yn golygu nad yw hi'n gwbl glir pa grŵp yn y ffactor yw'r mwyaf rhagfynegol, er bod ffactor yn rhagfynegydd arwyddocaol o bobl yn teimlo'n ddiogel yn eu hardal leol.


4. Y prif ffactorau sy'n gysylltiedig â phobl yn teimlo'n ddiogel yn eu hardal leol

Roedd cyfanswm o **71%** o bobl yn **teimlo'n ddiogel yn eu hardal leol**. Mae Ffigur 3.1 yn dangos yr holl ffactorau unigol (gan **gadw'r ffactorau eraill yn gyson**) y canfuwyd a oedd yn gysylltiedig â'r debygoliaeth o bobl yn teimlo'n ddiogel gartref, wrth gerdded o amgylch eu hardal leol ar eu pen eu hunain, ac wrth deithio mewn car neu ar drafnidiaeth gyhoeddus. Ym mhob ffactor, mae'r nodwedd grŵp sydd â'r tebygolrwydd mwyaf (%) o deimlo'n ddiogel yn eu hardal leol wedi'i hamlygu mewn glas golau. Caiff pob ffactor unigol ei drafod yn fwy manwl yn yr adrannau canlynol.

Ffigur 3.1 Y prif ffactorau sy'n gysylltiedig â'r debygoliaeth fod pobl yn teimlo'n ddiogel yn eu hardal leol.



Ffigur 3.1 (parhad) Y prif ffactorau sy'n gysylltiedig â'r debygoliaeth fod pobl yn teimlo'n ddiogel yn eu hardal leol.



4.1 Dadansoddi


Gan gadw'r holl ffactorau eraill yn gyson, canfuwyd bod y ffactorau canlynol yn gysylltiedig ag a oedd pobl yn teimlo'n ddiogel gartref, wrth gerdded o amgylch eu hardal leol ar eu pen eu hunain, ac wrth deithio mewn car neu ar drafnidiaeth gyhoeddus. Mae ffactorau unigol sy'n rhannu nodweddion tebyg yn cael eu grwpio yn ôl **themâu** (ee ffactorau demograffig). Rhestrir y ffactorau y canfuwyd **nad** oeddent yn gysylltiedig â phobl yn teimlo'n ddiogel yn eu hardal leol yn [Adran 4.2](#).

4.1.1 Ffactorau demograffig

Rhyw

Canfuwyd bod dynion yn fwy tebygol o deimlo'n ddiogel yn eu hardal leol ar ôl iddi dywyllu (gartref, wrth gerdded ar eu pen eu hunain, ac wrth deithio), o'u cymharu â menywod. **Gweler Ffigur 4.1.**


Ffigur 4.1 Y berthynas rhwng teimlo'n ddiogel yn yr ardal leol a rhyw.



Oedran

Pobl hŷn 75 oed a hŷn oedd y grŵp oedran lleiaf tebygol o deimlo'n ddiogel yn yr ardal leol. **Gweler Ffigur 4.2.**

Ffigur 4.2 Y berthynas rhwng teimlo'n ddiogel yn yr ardal leol ac oedran.




4.1.2 Ffactorau economaidd-gymdeithasol

Amddifadedd materol

Canfuwyd bod pobl **nad oeddent mewn amddifadedd materol** yn fwy tebygol o deimlo'n ddiogel yn eu hardal leol, o'u cymharu â'r rheini a oedd mewn amddifadedd materol. **Gweler Ffigur 4.3.**

Ffigur 4.3 Y berthynas rhwng teimlo'n ddiogel yn yr ardal leol ac amddifadedd materol.




4.1.3 Cydlyniant cymunedol

Ymdeimlad o berthyn i ardal leol

Ar y cyfan, roedd pobl a oedd yn cytuno eu bod yn cael **ymdeimlad o berthyn** i'r ardal leol yn fwy tebygol o deimlo'n ddiogel yn eu hardal leol, o'u cymharu â phobl nad oeddent yn cael ymdeimlad o berthyn. **Gweler Ffigur 4.4.**


Ffigur 4.4 Y berthynas rhwng teimlo'n ddiogel yn yr ardal leol ac ymdeimlad o berthyn i ardal leol.



Pobl o gefndiroedd gwahanol yn cyd-dynnu'n dda

Canfuwyd bod pobl a oedd yn cytuno bod pobl o **gefndiroedd gwahanol yn cyd-dynnu'n dda** yn eu hardal leol yn fwy tebygol o deimlo'n ddiogel yn eu hardal leol, o'u cymharu â'r rheini nad oeddent yn cytuno â hynny. **Gweler Ffigur 4.5.**

Ffigur 4.5 Y berthynas rhwng teimlo'n ddiogel yn yr ardal leol a barn ynghylch cydlyniant cymunedol (cefniroedd gwahanol yn cyd-dynnu).




4.1.4 Nodweddion yr ardal leol

Barn ar lefel y traffig a llygredd sŵn yn yr ardal leol

Pobl a oedd yn ‘anfodlon iawn’ â lefel y traffig a llygredd sŵn oedd y mwyaf tebygol o deimlo’n ddiogel yn yr ardal leol, a phobl a oedd yn ‘eithaf anfodlon’ oedd y lleiaf tebygol. Gweler **Ffigur 4.6**.

Ffigur 4.6 Y berthynas rhwng teimlo’n ddiogel yn yr ardal leol a barn ynghylch lefel y traffig a llygredd sŵn.



4.2 Ffactorau nad ydynt yn gysylltiedig â phobl yn teimlo’n ddiogel yn eu hardal leol

Yn y dadansoddiad hwn, roedd ffactorau eraill wedi’u cynnwys yn ein model atchweliad, ond **ni** wnaethom ganfod cysylltiad rhwng y ffactorau canlynol a phobl yn teimlo’n ddiogel yn eu hardal leol⁷:

- Anabledd, gwendid neu salwch hirsefydlog.
- Statws priodasol.
- Llesiant meddyliol.
- Bodlonrwydd cyffredinol ar yr ardal leol fel lle i fyw.
- A yw pobl yn y gymuned leol yn trin ei gilydd â pharch.
- Barn am lygredd a sbwriel yn yr ardal leol.
- Mynediad i gar.
- Byw mewn ardal wledig neu drefol.
- Teimlo’n ddiogel wrth gerdded mewn mannau gwyrdd lleol.

5. Dadansoddi cwestiynau unigol

Mae’r Dangosydd Cenedlaethol ar gyfer canran y bobl sy’n teimlo’n ddiogel/anniogel yn eu hardal leol yn un mesur sy’n cynnwys pedwar cwestiwn unigol sy’n ymwneud â theimlo’n ddiogel yn yr amgylchiadau hyn: 1) **wrth gerdded ar eu pen eu hunain yn yr ardal leol ar ôl iddi dywyllu**; 2) **wrth deithio mewn car ar ôl iddi dywyllu**; 3) **gartref ar ôl iddi dywyllu**; a 4) **wrth deithio ar drafndiaeth gyhoeddus ar ôl iddi dywyllu**. Roeddem hefyd wedi edrych ar ffactorau a oedd yn gysylltiedig â phob un o’r pedwar cwestiwn hwn ar wahân i weld a oedd y ffactorau yr un fath â phan oedd y cwestiynau wedi’u cyfuno yn un mesur. Ar gyfer cwestiynau unigol, rydym wedi edrych ar ffactorau sy’n gysylltiedig â phobl yn teimlo’n *anniogel* mewn gwahanol sefyllfaoedd, oherwydd roeddem yn teimlo bod hyn yn arwain at negeseuon mwy perthnasol ac uniongyrchol ar gyfer polisi.

⁷ Ystyriwyd ethnigrwydd, crefydd ac ardal awdurdod lleol yn yr adroddiad hwn hefyd. Fodd bynnag, nid oedd y ffactorau hyn yn gydnaws â’r technegau y gwnaethom eu defnyddio, felly cawsant eu tynnu o gamau diweddarach y gwaith dadansoddi.

5.1 Teimlo'n anniogel wrth gerdded ar eu pen eu hunain yn yr ardal leol

Roedd cyfanswm o 19% o bobl yn dweud nad oeddent yn teimlo'n ddiogel wrth gerdded ar eu pen eu hunain yn eu hardal leol ar ôl iddi dywyllu. Mae **Tabl 1** yn crynhoi'r holl ffactorau sy'n gysylltiedig â'r mesur unigol hwn o ddiogelwch mewn ardal leol. Ceir dadansoddiad manwl o bob un o'r ffactorau hyn yn **Atodiad A**.

Tabl 1. Crynodeb o'r ffactorau y canfuwyd sy'n gysylltiedig â phobl yn teimlo'n anniogel wrth gerdded ar eu pen eu hunain yn eu hardal leol ar ôl iddi dywyllu.

Thema	Ffactor	Mwyaf tebygol o deimlo'n anniogel wrth gerdded mewn ardal leol
Ffactorau demograffig	<i>Rhyw</i>	Menywod
Ymdeimlad o gymuned	<i>Bodlonrwydd cyffredinol ar yr ardal leol</i>	Anfodlon ar yr ardal leol
Nodweddion yr ardal leol	<i>Dosbarthiad ardal</i> <i>Teimlo'n ddiogel wrth gerdded ar eu pen eu hunain mewn mannau gwyrdd lleol</i>	Ardaloedd trefol Ddim yn teimlo'n ddiogel mewn mannau gwyrdd lleol
Iechyd cyffredinol	<i>A yw eu hiechyd cyffredinol yn 'dda' neu'n 'dda iawn'</i>	Na

5.2 Teimlo'n anniogel wrth deithio mewn car ar ôl iddi dywyllu

Roedd cyfanswm o 3% o bobl yn dweud nad oeddent yn teimlo'n ddiogel wrth deithio mewn car ar ôl iddi dywyllu. Mae **Tabl 2** yn crynhoi'r holl ffactorau sy'n gysylltiedig â'r mesur unigol hwn o ddiogelwch mewn ardal leol. Ceir dadansoddiad manwl o bob un o'r ffactorau hyn yn **Atodiad B**.

Tabl 2. Crynodeb o'r ffactorau y canfuwyd sy'n gysylltiedig â phobl yn teimlo'n anniogel wrth deithio mewn car ar ôl iddi dywyllu.

Thema	Ffactor	Mwyaf tebygol o deimlo'n anniogel wrth deithio mewn car
Ffactorau demograffig	<i>Oedran</i>	Hŷn
Ffactorau economaidd-gymdeithasol	<i>Amddifadedd materol</i>	Mewn amddifadedd materol
Nodweddion yr ardal leol	<i>Teimlo'n ddiogel wrth gerdded ar eu pen eu hunain mewn mannau gwyrdd lleol</i>	Ddim yn teimlo'n ddiogel mewn mannau gwyrdd lleol
Rhanbarth yr heddlu	<i>Rhanbarth yr heddlu y mae'r sawl sy'n cymryd rhan yn byw yno ar hyn o bryd</i>	Dyfed Powys

5.3 Teimlo'n anniogel gartref ar ôl iddi dywyllu

Roedd cyfanswm o 3% o bobl yn dweud nad oeddent yn teimlo'n ddiogel gartref ar ôl iddi dywyllu. Mae **Tabl 4** yn crynhoi'r holl ffactorau sy'n gysylltiedig â'r mesur unigol hwn o ddiogelwch mewn ardal leol. Ceir dadansoddiad manwl o bob un o'r ffactorau hyn yn **Atodiad C**.

Tabl 3. Crynodeb o'r ffactorau y canfuwyd sy'n gysylltiedig â phobl yn teimlo'n anniogel wrth deithio gartref ar ôl iddi dywyllu.

Thema	Ffactor	Mwyaf tebygol o deimlo'n anniogel gartref ar ôl iddi dywyllu
Ffactorau demograffig	<i>Rhywedd</i>	Menywod
Ffactorau economaidd-gymdeithasol	<i>Amddifadedd materol</i>	Mewn amddifadedd materol
Ymdeimlad o gymuned	<i>A yw'n cael ymdeimlad o berthyn i ardal leol</i>	Ddim yn cael ymdeimlad o berthyn
Nodweddion yr ardal leol	<i>Barn ar draffig a llygredd sŵn yn yr ardal leol</i> <i>Teimlo'n ddiogel wrth gerdded ar eu pen eu hunain mewn mannau gwyrdd lleol</i>	Anfodlon ar y traffig a'r llygredd sŵn Ddim yn teimlo'n ddiogel mewn mannau gwyrdd lleol

5.4 Teimlo'n anniogel wrth deithio ar drafnidiaeth gyhoeddus ar ôl iddi dywyllu

Roedd cyfanswm o 21% o bobl yn dweud nad oeddent yn teimlo'n ddiogel wrth deithio ar drafnidiaeth gyhoeddus ar ôl iddi dywyllu. Mae **Tabl 5** yn crynhoi'r holl ffactorau sy'n gysylltiedig â'r mesur unigol hwn o ddiogelwch mewn ardal leol. Ceir dadansoddiad manwl o bob un o'r ffactorau hyn yn **Atodiad D**.

Tabl 4. Crynodeb o'r ffactorau y canfuwyd sy'n gysylltiedig â phobl yn teimlo'n anniogel wrth deithio ar drafnidiaeth gyhoeddus ar ôl iddi dywyllu.

Thema	Ffactor	Mwyaf tebygol o deimlo'n anniogel gartref ar ôl iddi dywyllu
Ffactorau demograffig	<i>Rhywedd</i>	Menywod
Nodweddion yr ardal leol	<i>Teimlo'n ddiogel wrth gerdded ar eu pen eu hunain mewn mannau gwyrdd lleol</i>	Ddim yn ddiogel
Iechyd cyffredinol	<i>A yw eu hiechyd cyffredinol yn 'dda' neu'n 'dda iawn'</i>	Na

6. Crynodeb ac argymhellion ar gyfer rhagor o ymchwil

Yn gryno, rydym wedi dadansoddi ffactorau sy'n gysylltiedig â **Dangosydd Cenedlaethol Cenedlaethau'r Dyfodol 25: 'Canran y bobl sy'n teimlo'n ddiogel gartref, wrth gerdded yn yr ardal leol ac wrth deithio'**.

Roedd pedair thema ganolog⁸ wedi dod i'r amlwg wrth i ni ddadansoddi'r ffactorau sy'n gysylltiedig â theimlo'n ddiogel yn yr ardal leol:

1. Ffactorau demograffig.
2. Ffactorau economaidd-gymdeithasol.
3. Cydlyniant cymunedol.
4. Nodweddion yr ardal leol.

Hefyd, daeth dwy thema arall i'r amlwg wrth i ni ddadansoddi cwestiynau unigol am ddiogelwch: roedd cysylltiad rhwng iechyd cyffredinol a theimlo'n anniogel wrth gerdded ar ôl iddi dywyllu a theithio ar drafnidiaeth gyhoeddus ar ôl iddi dywyllu; ac roedd cysylltiad rhwng rhanbarth yr heddlu a theimlo'n anniogel wrth deithio mewn car ar ôl iddi dywyllu.

Gallai'r berthynas rhwng ffactorau penodol a diogelwch cymunedol fod yn fwy cymhleth na'r hyn a awgrymir yn y dadansoddiad hwn, a gallai'r canlyniadau **amrywio** rhwng ac o fewn gwahanol ardaloedd. Felly, gallai rhagor o ymchwil gynnwys mwy o ymchwiliadau ar raddfa fach sy'n cynnwys dulliau mwy amrywiol (fel ymchwil ansoddol⁹ neu ddulliau cymysg¹⁰).

⁸ Gyda'i gilydd, roeddem wedi edrych ar ffactorau a oedd yn gysylltiedig â **7 Dangosydd Cenedlaethol ar gyfer Llesiant** fel rhan o brosiect yn defnyddio data o Arolwg Cenedlaethol Cymru 2018-19. Canfuwyd bod rhai ffactorau yn gysylltiedig â mwy nag un Dangosydd Cenedlaethol, felly rydym wedi darparu dogfen ar wahân sy'n tynnu sylw at y tebygrwydd a'r gwahaniaethau rhwng y ffactorau unigol, a'r themâu cyffredinol, y canfuwyd sy'n gysylltiedig â'r holl Ddangosyddion Cenedlaethol. Mae'r ddogfen hon ar gael ar-lein: Hafferty, C. (2019). *Themâu allweddol sy'n gysylltiedig â detholiad o Ddangosyddion Cenedlaethol ar gyfer Llesiant Cymru*. Caerdydd: Llywodraeth Cymru, Adroddiad GSR. Ar gael yn: <https://llyw.cymru/arolwg-cenedlaethol-cymru-ebrill-2018-i-mawrth-2019>.

⁹ Defnyddir **ymchwil ansoddol** yn aml i ddeall rhesymau, safbwyntiau a chymhelliant sylfaenol pobl; er mwyn gweld y tueddiadau o ran meddyliau a safbwyntiau pobl er mwyn i ni ddeall mater penodol yn well. Mae dulliau casglu data ansoddol yn aml yn ddulliau ar raddfa fach, sy'n casglu data heb fod yn rhifol drwy ddefnyddio technegau fel cyfweiliadau a grwpiau ffocws. Ar y llaw arall, mae ymchwil *feintiol* yn ceisio deall problem drwy gasglu data rhifol y gellir eu defnyddio wrth ddadansoddi ystadegau, yn aml er mwyn cynhyrchu canlyniadau cyffredinol i sampl fawr o boblogaeth (ee agweddau, ymddygiad a safbwyntiau). Er enghraifft, dyma sut mae Arolwg Cenedlaethol Cymru yn casglu ac yn dadansoddi gwybodaeth newydd yn bennaf.

¹⁰ Mae **'dulliau cymysg'** yn ddull ymchwil sy'n cynnwys casglu a dadansoddi data ansoddol a meintiol yn yr un astudiaeth. Wrth i lunwyr polisïau, ymarferwyr a phobl eraill mewn meysydd cymhwysol anelu at baratoi ymchwil seiliedig ar wybodaeth a sawl math o dystiolaeth, er enghraifft llesiant cymunedau a chenedlaethau'r dyfodol, sy'n cynnwys sawl agwedd, gall ymchwil dulliau cymysg fod yn ffordd bwysig a soffistigedig o archwilio'r sefyllfaoedd cymdeithasol cymhleth hyn.

Awdur yr Adroddiad: Caitlin Hafferty



Safbwyntiau'r ymchwilyr sy'n cael eu mynegi yn yr adroddiad yma, ac nid ydynt o reidrwydd yn cynrychioli safbwyntiau Llywodraeth Cymru.

I gael rhagor o wybodaeth, cysylltwch â:


Siobhan Evans
Yr Is-adran Ymchwil Gymdeithasol a Gwybodaeth
Gwasanaethau Gwybodaeth a Dadansoddi
Llywodraeth Cymru, Parc Cathays
Caerdydd, CF10 3NQ
E-bost: Siobhan.Evans@gov.wales

Mae'r ddogfen yma ar gael yn Saesneg hefyd.


This document is also available in English.

OGI © Hawlfraint y Goron ISBN Digidol 978-1-80038-358-6


Atodiad A – Y prif ffactorau sy'n gysylltiedig â phobl yn teimlo'n anniogel wrth gerdded ar eu pen eu hunain yn yr ardal leol ar ôl iddi dywyllu.



Atodiad B – Y prif ffactorau sy'n gysylltiedig â phobl yn teimlo'n anniogel wrth deithio mewn car yn yr ardal leol ar ôl iddi dywyllu.



Atodiad C – Y prif ffactorau sy'n gysylltiedig â phobl yn teimlo'n anniogel gartref ar ôl iddi dywyllu.



Atodiad D – Y prif ffactorau sy'n gysylltiedig â phobl yn teimlo'n anniogel wrth deithio ar drafnidiaeth gyhoeddus ar ôl iddi dywyllu.

